**How to identify a Shrill Carder Bee**

I'm here at Newport Wetlands looking for the shrill carder bee, one of Britain's rarest bees, and just in front of me I can hear lots of different buzzing going on in these fabulous flowers. The shrill carder bee used to be one of Britain's very commonest bees, but due to changes in farmland and how our countryside is farmed, there's just not the wildflowers out there anymore for it to feed on. It doesn't travel very far from its nest to get its food, and so, with the absence of many wildflowers in our countryside, the bees haven't been able to survive. Now that's the opposite case here at Newport Wetlands because there are corridors of fabulous food and wonderful flowers for them.

The shrill carder bee has a long tongue for feeding on pea-like flowers; we've got tufted vetch in front of me, tall melilot, there's birds-foot trefoil. It also likes things such as white dead nettle, red bartsia, knapweeds and scabious, and also hedge woundwort. So it's all about looking for these fabulous strips of flowers like we've got here at Newport Wetlands.

They're called shrill carder bees because they have this shrill buzzing sound; when you're looking and listening for them you can be listening for this real shrill buzzing sound.

If you're trying to spot one, you need first of all to familiarize yourself with the common bees. Here you'll get the common buff-tailed, white-tailed and red-tailed bumblebees. They're quite big and very,

**Sut i adnabod y Gardwenynen Fain**

Rydw i yma yng Ngwlyptiroedd Casnewydd yn chwilio am y gardwenynen fain, un o wenyn prinnaf Prydain, ac o fy mlaen i gallaf glywed sŵn grwnan yng nghanol y blodau hyfryd hyn. Arferai'r gardwenynen fain fod yn un o wenyn mwyaf cyffredin Prydain, ond oherwydd newidiadau mewn tir fferm a'r modd y mae'r tir yn cael ei ffermio, nid yw'r blodau gwyllt lle a arferai'r wenynen fwydo yn tyfu yno bellach. Nid yw'n teithio'n bell iawn o'i nyth i fwydo, ac felly, gydag absenoldeb llawer o flodau gwyllt yng nghefn gwlad, nid yw'r gwenyn wedi gallu goroesi. Nid dyna'r achos yma yng Ngwlyptiroedd Casnewydd fodd bynnag oherwydd mae coridorau o fwyd bendigedig a blodau hyfryd yma ar eu cyfer.

Mae gan y gardwenynen fain dafod hir ar gyfer bwydo ar flodau tebyg i bys; mae ffacbysen y berth yma o fy mlaen i, yr wydro dal, a physen-y-ceirw. Mae hefyd yn hoff o bethau fel marddanhadlen wen, gorudd, y bengaled a'r clafrllys, a hefyd briwlys y gwrych. Felly mae stribedi bendigedig o flodau fel sydd yma yng Ngwlyptiroedd Casnewydd yn hynod bwysig.

Yn Saesneg, fe'u gelwir yn 'shrill carder bee' oherwydd eu sŵn main, gwichlyd; pan rydych chi'n chwilio amdanyn nhw, gwrandewch am y gwichian hyn.

Os ydych chi'n ceisio dod o hyd i gardwenynen fain, yn gyntaf oll mae angen i chi ymgyfarwyddo â'r gwenyn cyffredin. Yma fe gewch chi'r gacynen gyffredin, y gynffon-wen a'r dingoch. Maen nhw'n eitha' mawr ac yn hynod flewog, er bod y gwenyn gweithgar yn tueddu i fod yn llai. Ac yna byddwch chi'n chwilio am y

| | |
|---|---|
| very fluffy, although the worker bees tend to be smaller. And then you will be looking for the common carder bee, a more honey coloured bee with a stripy tail, which tends to be very common in these sorts of plants. The shrill carder bee is similar to the common carder bee, but instead of being honey coloured, it's a more lighter, greyer colour, but importantly, it's got a big black band of hairs that run between both wings, and also an orange tail. In the common carder bee that tends to also be quite honey coloured. So, if you look for that black band, that much paler straw-coloured affect, and that orangey tail, then the likelihood is that you've got a shrill carder bee.<br><br>So come to Newport Wetlands, explore the Wales Coastal Path, pop into the Great Traston Meadows, and you've got a good chance all the way through to September/October time of spotting the shrill carder bee. Unlike other bees, they tend to hang on and live much later into the autumn, so you've got a good chance to seeing them, even to early October. | gardwenynen gyffredin, gwenyn lliw melyn fel mêl gyda chynffon streipïog, sy'n tueddu i fod yn gyffredin iawn o fewn y mathau hyn o blanhigion. Mae'r gardwenynen fain yn debyg i'r gardwenynen gyffredin, ond yn hytrach na’r lliw melyn, mae’n fwy llwyd golau, ac yn bwysicach, mae ganddi fand du mawr o flew sy'n rhedeg rhwng y ddwy adain, a chynffon oren hefyd, lle mae’r gardwenynen gyffredin yn dueddol o fod y lliw melyn fel mêl yma. Felly, edrychwch am y band du hwnnw, y lliw llawer mwy gwelw, a'r gynffon oren honno, ac mai’n debygol mai’r gardwenynen fain sydd gennych chi.<br><br>Felly dewch i Wlyptiroedd Casnewydd, archwiliwch Lwybr Arfordir Cymru, galwch heibio i Ddolydd Great Traston, lle bydd yna gyfle da i weld y gardwenynen fain hyd at fisoedd Medi/Hydref. Yn wahanol i wenyn eraill, maen nhw'n tueddu i fyw yn llawer hwyrach i mewn i'r hydref, felly mae gennych chi gyfle da i'w gweld, hyd yn oed ar ddechrau mis Hydref. |